

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo a gynhaliwyd Nos Iau, 5 Gorffennaf 2018 yn Neuadd Pentref Carmel

Minutes of the Cemeteries & Property Committee held Thursday, 5 July 2018 at Carmel Village Hall

Yn bresennol - Present

Aelodau'r Cyngor / Council Members - Cynghorwyr Clive Bayley; Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones
David Roberts Clerc y Cyngor / Council Clerk.

Yn bresennol ar gyfer eitem 5 - Dai Lloyd Evans ac Elizabeth Ann o'r Fron, Cyfarwyddwyr Canolfan y Fron

1 Ethol Cadeirydd – Elect a Chairman

Etholwyd Cyng. Clive Bayley i'r gadair am y flwyddyn i ddod. Croesawodd pawb i'r cyfarfod. Aeth ymlaen at y rhaglen yn syth.

Cllr. Clive Bayley was elected Chairman for the year ahead. He welcomed all that was present and proceeded straight to the evenings business

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Cyng. Alan Patterson; Cyng. Helen Hughes

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000/ *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000*

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol na buddiant yn rhagfarnu gan aelodau oedd yn bresennol.

No declaration of personal or prejudicial interest was made by those present

4 Cae Chwarae Y Fron / Fron Football Field

Croesawyd dau aelod o Ganolfan y Fron i'r cyfarfod sef Dai Lloyd Evans a Elizabeth Ann - Cyfarwyddwyr Canolfan y Fron. 'Roedd y Cyngor yn ei gyfarfod 16 Mai 2018 wedi gofyn i'r Pwyllgor hwn i geisio gwybodaeth ynglŷn â -

- Cynlluniau'r Cyfarwyddwyr ar gyfer y cae
- Trefniadau cynnal y cae
- Sicrwydd fod hawl gan bawb at y cae

Cafwyd sicrwydd fel a ganlyn-

Cynlluniau –

Dangosodd Dai cynlluniau fel y'i cyflwynwyd i'r Loteri am grant. Ymysg y gwaith y bwriedir ei wneud oedd-

- 14 troedfedd o wahaniaeth mewn lefelau - bwriedir lefelu'r tir.
- Cae pêl-droed 5 pob ochor yn y canol.
- Meinciau ar yr ymylon.
- Gwelliannau i'r fynedfa

Ar hyn o bryd mae'r Cyfarwyddwyr yn hynod o brysur gyda gwaith y Ganolfan felly nid oes brys mawr i dderbyn y cae gan y Cyngor.

Bwriedir cyflwyno cais eto i'r dyfodol i unrhyw asiantaethau fydd yn cynnig grantiau. Bwriedir ychwanegu offer i oedolion gynnal ymarfer corff

Awgrymodd AWJ Iddynt oedi hyd nes y flwyddyn ariannol nesaf i roi amser digonol i'r Cyfarwyddwyr canolbwyntio ar agor y Ganolfan. Awgrymodd ymhellach i'r Cyfarwyddwyr gysylltu gyda'r Cyngor cyn i'r Cyngor sefydlu cyllideb 2019-20.

Trefniadau cynnal

Y bwriad yw i wirfoddolwyr gynnal y cae. Dau aelod gyda'r cymwysterau priodol.

Awgrymodd y Clerc i'r ganolfan wneud cais blynyddol ar gyfer Rhoddion Adran 137 – gellir ystyried cyfraniad ar gyfer torri gwair yn y cais hwnnw.

Hawl Mynediad I Bawb

Cafwyd sicr gan Dai ac Elizabeth fod pawb yn y gymuned gyda hawl mynediad i'r adnodd

Trafodwyd y canlynol

Arwydd - Dau arwydd wedi ei brynu ar gyfer cae Carmel. Perchnogion Tŷ Fry a'r ysgol wedi gwrthod gosod yr arwyddion. Cytunwyd i osod un arwydd ar giât mynediad cae pel-droed y Fron.

Cofnodion AGM

Clerc wedi derbyn cofnodion yn Saesneg

Cynrychiolaeth o'r Cyngor ar Grŵp Datblygu'r Fron

Nid oedd yr aelodau yn awyddus enwebu aelod ar y Grŵp. Aelodau o'r farn fod y Grŵp wedi datblygu heb ymyrraeth bellach y Cyngor. Cytunwyd i dynnu new Gwyn Owen Jones sydd ar y gofrestr fel aelod o'r pentref a ddim cynrychiolydd o'r Cyngor

7:55pm - Diolchodd y Cadeirydd i Dai ac Elizabeth am ddod i'r cyfarfod. Llongyfarchwyd y ddau gan y Cadeirydd am y gwaith called sydd yn cael ei wneud yn y Fron ac sydd o fydd i bawb yn y gymuned

Argymhelliad i'r Cyngor –

- i) *Fod y Cyngor yn derbyn rhesymau cyfarwyddwyr Canolfan y Fron i oedi rhag arwyddo'r brydles.***
- ii) *Fod y Cyngor yn cynnwys yn y cytundeb cymal fod gan bawb yn y gymuned hawl mynediad i'r adnodd.***

Recommendation to the Council –

- i) For the Council to accept the delay by Canolfan Y Fron to in signing the lease for ownership of the land***
- ii) For the council to ensure that the lease agreement includes access to everyone in the Community.***

5 Llochesi Bws Diweddariad – Bus Shelters - Update

Adroddwyd gan y Clerc –

- Lloches Cae'r Moel - gwaith bron wedi ei orffen. Snag gyda'r giât. Aelodau yn cytuno and oedd angen y giât gan and oes defied yn rhydd yn y pentref i'w faeddu
- Lloches Parc Carmel - Tecwyn Hughes wedi cysylltu yn ymddiheuro and yw am gyflawni'r gwaith o ddarparu cynlluniau Clerc i drefnu gyda Pensaer arall.
- Lloches Y Fron - angen lleihau llwybr sydd yn berchen i Grŵp Datblygu'r Fron os am symud y lloches yn ôl. Barn yr aelodau yw bod angen ystyried gwariant ar y lloches hon yn ofalus.

Argymhelliad i'r Cyngor –

- i) Fod y Cyngor yn gofyn i'r adeiladwr i dynnu'r giat**
- ii) Fod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth ar gyfer lloches Parc Carmel**
- iii) Fod y Cyngor yn derbyn sylwadau'r Pwyllgor am loches Y Fron ac ymddiried yn y Pwyllgor i edrych ar fanteision a gwerth am arian trwy ei symud yn ôl un troedfedd.**

Recommendation to the Council –

- i) That the Council agrees to remove the gate**
- ii) That the Council accepts the information as noted regarding the shelter located at the community garden in Carmel**
- iii) That the Council accepts the information as noted regarding the bus shelter in Fron and to rely on the Committee to assess the value for money by moving the shelter back.**

6 Profion Diogelwch Cerrig Beddi – Headstones Safety Checks

Adroddwyd gan y Clerc-

Fod y Cyngor wedi penderfynu cynnal profion o'r cerrig beddi fel a ganlyn-

Llandwrog yn 2018

Bryn'rodyn yn 2019

Carmel yn 2020

Cadarnhau fod yna swm o £1,000 yn y gyllideb eleni i gyflawni'r gwaith–

Hanes y Profion -

2005 - Profion Llawn o'r tair mynwent

2009 - Profion Llawn o'r tair mynwent

2010 - Profion o gerrig newydd ers 205

2013 - Profion Llawn - Llandwrog

2014 - Profion Llawn – Bryn'rodyn

2015- Profion Llawn - Carmel

AWJ - yn cynnig fod angen cynnwys arolygiad o'r gwaith coed a thap sydd wedi ei osod ar rhai o'r cerrig oedd yn rhydd.

Cytunodd yr aelodau i gynnal y profion yn ystod mis Hydref ac i'r Clerc i drefnu hysbysebion yn y wasg leol yn unol â'r trefniadau blaenorol.

Argymhelliad i'r Cyngor –

- i) Fod y Cyngor yn cytuno i gynnal profion o gerrig beddi fynwent Llandwrog yn Hydref 2018 ac i hysbysebu yn y drefn arferol**
- ii) Fod y Cyngor yn cynnwys arolygiad o'r gwaith coed sydd wedi ei osod ar gerrig beddi a oedd yn rhydd ym mhroffion blaenorol**

Recommendation to the Council – For the Council to accept the

- i) For the Council to agree to undertake the inspection in October 2018 and to issue public notices in the usual manner**
- ii) For the Council to include inspection of the wooden stakes that were fixed in previous examinations on loose headstones**

7 Ffioedd Claddu – Burial Fees

Achos wedi codi yn ddiweddar o gladdedigaeth gwr oedd wedi ei eni a'i fagu yn y gymuned, wedi symud o'r ardal i fyw ers rhai blynyddoedd gyda theulu wedi claddu yn y fynwent. Ffioedd presennol yn datgan fod rhaid talu ffi tu allan i'r gymuned gan fod y ffioedd yn datgan-

Mewn achos mhle bu'r ymadawedig farw o fewn 5 mlynedd a wedi gadael y gymuned bydd ffi'r gymuned leol yn berthnasol

Barn yr aelodau oedd mai pwrpas y cymal uchod oedd i arbed safleoedd claddu gan bobol heb gysylltiad gyda'r gymuned yn dod i'r gymuned i'w claddu. Nid oedd y cymal yn bwriadu csbi pobol oedd wedi ei geni a'l magu yn y gymuned ac wedi symud o'r ardal.

Argymhelliad i'r Cyngor –

i) Fod y Cyngor yn ychwanegu'r cymal canlynol i'r Ffioedd Mynwentydd.....

os yw'r ymadawedig wedi byw yn y gymuned am gyfnod o 5 mlynedd ddi-dor ffi'r gymuned leol fydd yn berthnasol.

8 Ciosg Cilgwyn - Cilgwyn Kiosk

Gohiriwyd yr eitem Cafwyd gwybodaeth ddiweddar gan gwmni BT yn oedi ganddynt i dynnu'r cyfarpar trydanol sydd yn y ciosg.

– [Item deferred](#)

Daeth y cyfarfod i ben am 8:30 yr hwyr / Meeting closed at 8.30pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor

Dyddiad -